**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**
**A GYNHALIWYD AR 18 RHAGFYR 2018 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon), and Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon).

**Ymddiheuriadau:** Mrs Cath Thomas (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond; Mr Tom Jenkins (Swyddog Arolygon) a Mr Matthew Farrell (Swyddog Arolygon)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 13:00

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff y Cadeirydd

2.1. Briffiwyd y Comisiwn gan y Cadeirydd ar benodiad Gweinidog newydd a'i ddirprwy. Roedd y Comisiwn o'r farn mai effaith fach fyddai'r newidiadau yn eu cael ar waith y Comisiwn, o leiaf hyd at ddiwedd Rhaglen Arolygon 2022.

2.2. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad ar 31 Ionawr 2019, gydag Uned Cyrff Cyhoeddus newydd Llywodraeth Cymru i drafod trefniadau cylch gwaith y Tymor Llywodraeth newydd ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a byddent yn diweddaru'r Comisiwn ar unrhyw faterion yn codi.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2018 gyda'r newidiadau y cytunwyd arnynt, fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Prif Weithredwr dyddiedig 3 Rhagfyr 2018 ac i'r materion a godwyd isod;

- **(Mater 3)** Adeilad – roedd y landlord wedi llofnodi prydles Tŷ Hastings i'r Comisiwn am gyfnod o bum mlynedd.

- **(Mater 4)** Polisïau Adnoddau Dynol - Cafodd graddau'r gwaith hwn ei adolygu, a chanfuwyd ei fod yn fwy helaeth o lawer nag yr ystyriwyd i ddechrau. Byddai polisïau'n cael eu grwpio i'w hystyried gan gyfarfodydd yn y dyfodol.
- **Cytunwyd** newid y dyddiad targed ar gyfer cwblhau o Ragfyr 2018 i fis Mawrth 2019.

  Tynnodd y Cadeirydd sylw at y gofyniad i ystyried Hysbysiad Cydymffurfio'r Asesiad o'r Gymraeg. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn adrodd yn ôl ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

  Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddant yn adolygu'u polisïau Adnoddau Dynol eu hunain, a bydd y Comisiwn yn edrych arnynt ar ôl adolygiad LlC.

- **(Mater 6)** Adroddiad Blynyddol – Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2017-18 ar 28 Hydref 2018.

- **(Mater 7)** Adolygiad JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi) – Disgwylir canlyniad yr adolygiad erbyn mis Ionawr 2019.

- **Penderfynwyd nodi'r Adroddiad.**

**5. Ymarferiad Tendr Argraffu**

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Rheolwr Cymorth Busnes (Masnachol, yn Gyfrinachol) dyddiedig 10 Rhagfyr ar yr ymarferiad Tendr Argraffu. Derbyniwyd y Tendr llwyddiannus gan ddeiliad blaenorol y contract ac am bris llai na godwyd yn flaenorol. Golygai hynny, ynghyd â'r ffaith fod y Comisiwn yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y cwmni a ymatebodd, fod y contract wedi'i ddyfarnu gan y Bwrdd Tendrau i Zenith Print Media am gyfnod o 5 mlynedd.

5.2. Penderfynwyd nodi'r Adroddiad a chadarnhau derbyn y tendr.

**6. Adroddiad Cynigion Terfynol Drafft Arolwg Etholiadol Powys.**

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad gan y Comisiwn dyddiedig 7 Rhagfyr gan y Swyddog Arolygon ar y Cynigion Terfynol Drafft ar gyfer Powys.

6.2. Cafodd sylwadau a ddarparwyd gan y Comisiynwyr Arweiniol eu hymgorffori yn yr adroddiad.

6.3. Penderfynwyd cytuno'r Adroddiad Terfynol drafft, yn amodol ar ddiwygiadau.

7. **Adroddiad ar Gynnydd Arolygon**

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr dyddiedig 11 Rhagfyr 2018.

**Adroddwyd na fu unrhyw newidiadau i gynnydd Arolygon ers y cyfarfod diwethaf, ac adroddwyd y materion canlynol,**

7.2. Roedd Arolygon Caerffili a Chaerdydd wedi'u dechrau. Mae'r Comisiynwyr wedi'u hysbysu.

7.3. Roedd y Comisiwn wedi darparu copi ymlaen llaw o adroddiad Sir Fynwy i Lywodraeth Cymru, fel y gallai LlC ddechrau gwaith ar y Gorchymyn.

**8. Dadansoddiad o'r Estyniad i'r Etholfraint**

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr dyddiedig 11 Rhagfyr 2018 ar y dadansoddiad a wnaed mewn ymateb i lythyr Cylch Gwaith diwygiedig y Gweinidog, a hysbysodd y Comisiwn fod adolygwyd yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cadarnhau bod y dadansoddiad yn yr Adroddiad yn gywir, a'i fod wedi defnyddio'r ystadegau perthnasol a oedd ar gael i gefnogi'i gasgliadau.

8.2. Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad a'r dadansoddiad, yn amodol ar wneud mân ddiwygiadau, a'i gyflwyno i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gan gydymffurfio â'r Llythyr Cylch Gwaith.

9. **Cynllun Corfforaethol**

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Prif Weithredwr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018.

9.2. Roedd argymhelliad gan yr archwilwyr mewnol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys Datganiad Cenhadaeth yn ei Gynllun Corfforaethol. Trafodwyd opsiynau ar gyfer fformat y Datganiad Cenhadaeth.

9.3. Penderfynwyd mabwysiadu'r geiriad canlynol fel y Datganiad Cenhadaeth ar gyfer y Comisiwn:

"Ein rôl ni yw adolygu trefniadau etholiadol awdurdodau lleol yng Nghymru, er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus."

## 10. Polisi Trafodion Ariannol a Gwrthdaro Buddiannau

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Rheolwr Cyllid dyddiedig 18 Rhagfyr 2018 mewn perthynas â fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Trafodion Ariannol a Gwrthdaro Buddiannau'r Comisiwn.

10.2. Trafododd a chytunodd y Comisiwn newidiadau priodol i'r polisi.

10.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn, a Phenderfynwyd mabwysiadu'r Adroddiad fel ei bolisi.

## 11. Rôl y Comisiynydd Arweiniol

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 26 Tachwedd 2018 gan y Prif Weithredwr ar swyddogaethau Comisiynwyr Arweiniol.

11.2. Cynigiwyd diwygiadau i'r ddogfen yn amlinellu dyletswyddau penodol y Comisiynydd Arweiniol. Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau.

## 12. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad y Rheolwr Cyllid dyddiedig 11 Rhagfyr 2018, yn rhoi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, a chytunwyd y newidiadau canlynol:

- Risg CR6, y cam lliniaru'n ymwneud â llofnodi a mabwysiadu'r brydles newydd i'w ddiwygio i ddangos ei fod wedi'i gwblhau; a
- Risg CR7 mewn perthynas â bodloni'r terfyn amser ar ofyniad y llythyr cylch gwaith i ddarparu dadansoddiad o estyniad o'r etholfraint i'r Gweinidog i'w dileu am fod y terfyn amser wedi'i fodloni.

12.2. Fe wnaeth y Comisiwn, ar gais y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, drafod lliniaru risg bosibl Brexit ac roedd o'r farn fod y broses o gysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith Brexit trwy gyfarfodydd Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, fel y datganwyd yn risg CR1, yn bodloni gofynion y Pwyllgor.

## 13. Adroddiad ar y Gyllideb

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2018 gan y Rheolwr Cyllid. Cytunodd y Comisiwn y trosglwyddiad cyllid arfaethedig rhwng categorïau cyllideb.

13.2. Nodwyd y tanwariant amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn, a **Chytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ildio £20,000 o'i Gyllid Grant ar gyfer 2018-19 yn ôl i Lywodraeth Cymru.

13.3. Ystyriodd a **Chytunodd** y Comisiwn proffil y gyllideb ar gyfer 2019-20. Nodwyd bod yr isadran noddi wedi cael gwybod am y gofyniad cyllideb amcangyfrifedig ar gyfer 2019-20.

**14. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018**

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwyr Cyllid dyddiedig 27 Tachwedd 2018. Nododd y Comisiwn ganlyniad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan gynnwys y penderfyniadau a wnaed a chofnodion y cyfarfod.

14.2. Trafodwyd a Nodwyd cynigion ac argymhellion gan y Comisiwn.

**15. Gwerthuso Bwrdd CFfDLC – Dadansoddiad o'r Ymatebion**

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 28 Tachwedd 2018, sef crynodeb o ymatebion i Holiadur Gwerthuso'r Bwrdd.

15.2. Ystyriwyd y gallai gwerthusiad canol blwyddyn posibl gael ei weithredu er mwyn monitro cynnydd yn well, ac y dylai'r Prif Weithredwr gael ei gynnwys fel barn annibynnol ar b'un a yw ymatebion yr holiadur yn adlewyrchu perfformiad y Comisiwn yn gywir.

15.3. **Cytunwyd** y byddai'r materion hyn yn cael eu trafod gyda'r Prif Weithredwr ar ddechrau 2019.

**16. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh**

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Busnes dyddiedig 10 Rhagfyr 2018. Adroddwyd;
Gwefan – Roedd gwaith datblygu yn mynd rhagddo, a gobeithiwyd y byddai profion beta yn dechrau yn Ionawr 2019. Roedd yna faterion yn ymwneud â chael mynediad i barth Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Lywodraeth Cymru; a Theleffoni – Roedd llinellau ffôn y dderbynfa wedi cael eu sefydlu, gyda phrofion i ddechrau ym mis Ionawr 2019.

16.2. Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan y Comisiwn.

**17. Calendr Digwyddiadau**

17.1. Ychwanegodd y Comisiwn gyfarfod yr Uned Cyrff Cyhoeddus yng Nghasnewydd (Swyddfa Cymwysterau Cymru) ar 31 Ionawr at y Calendr.

## 18. Unrhyw Fusnes Perthnasol Arall

1. Staffio.
2. Rhoddwyd ystyriaeth i fater adnoddau staffio mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen Arolygon, maint y gwaith y mae'n ei olygu a chyfyngiadau'r raddfa amser. Adroddwyd fod camau wedi'u cynllunio ar gyfer recriwtio staff, fodd bynnag, nid oes unrhyw recriwtio ychwanegol wedi'i wneud hyd yma. Er mwyn cynyddu adnoddau staff i fodloni'r llwyth gwaith disgwyliedig, ac i lenwi'r swydd wag bresennol, roedd y Comisiwn wedi cytuno, dros dro i a) awdurdodi penodi Swyddog Arolygon secondai ychwanegol a b) gwahodd ceisiadau mewnol gan y Swyddogion Arolygon Parhaol i swydd dros dro Rheolwr Arolygon. Cadarnhawyd y gallai'r costau ychwanegol gael eu talu o'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

**Penderfynwyd cadarnhau creu swydd dros dro Rheolwr Arolygon ac i awdurdodi'r Prif Weithredwr i wahodd ceisiadau i'r swyddi, fel yr adroddwyd.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 29 Ionawr 2019, i ddechrau am 08:30**